



## Cwis chwalu ffeithiau rhagfynegi

- 1** I ddechrau'r wers, cyflwynwch bwnc newyddion ffug i'ch grŵp a gofynnwch iddyn nhw beth mae hynny'n ei olygu iddyn nhw. Ysgrifennwch rai diffiniadau ar fwrdd gwyn/siart troi i'r grŵp gyfeirio ato trwy gydol y wers. Gallwch hefyd chwarae'r **ffilm ategol** am ysbrydoliaeth ychwanegol
- 2** Gofynnwch i bawb ddefnyddio enghreifftiau maen nhw wedi dod ar eu traws wrth gynnig diffiniadau, gan nodi bod gan wahanol bobl ddiffiniadau gwahanol o'r hyn y mae'r term yn ei olygu. Ysgogwch drafodaeth am ganlyniadau newyddion ffug i unigolion, cymdeithas a llunwyr polisi
- 3** Unwaith y bydd dealltwriaeth gyffredinol wedi'i sefydlu a'r grŵp yn fwy ymwybodol o'r gallu i gyflwyno ffeithiau mewn gwahanol ffyrdd, dechreuwch weithgaredd arddull 'ffaith neu ffuglen'. Dangoswch yr astudiaeth achos i bawb (ar sleid 2) a darllenwch hi ar goedd. Dywedwch wrth bawb y bydd yn rhaid iddynt wrando'n ofalus oherwydd nesaf byddant yn cael eu holi ar rai manylion allweddol



15 munud



Gwaith grwp



Sleidiau cyflwyniad cwis rhagfynegi chwilota ffeithiau



Rhagfynegi ffilm chwalu ffeithiau

- 4 Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai a dywedwch wrth bawb y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i drafod atebion y cwis a meddwl am ymateb fel grŵp. Rhowch funud neu ddwy i bawb dreulio'r wybodaeth yna cliciwch ar y sleid ganlynol – dewiswch rywun o bob grŵp a gofynnwch gwestiynau iddynt am yr astudiaeth achos
- 5 Gorffennwch drwy esbonio a thrafod y ffactorau sy'n gallu arwain at gamgynrychioli rhagolygon yn y newyddion. Datgelwch yr atebion ar y sleid ganlynol

